Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges
Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

Goruchwyliaeth Diogelwch Gwylwyr Lefel 3 (Rhan-Amser)

Trwy gwblhau'r cymwysterau hyn, bydd dysgwyr yn bodloni gofynion y diwydiant i gyflawni rolau goruchwyliol o fewn stiwardio a diogelwch gwylwyr.

Diben y cymwysterau hyn yw cadarnhau cymhwysedd galwedigaethol a darparu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o Ddiogelwch Gwylwyr i ddysgwyr. Maent wedi'u mapio i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Skills Active (NOS) ar gyfer Diogelwch Gwylwyr 2019.

Gofynion Mynediad

Rhaid i ddysgwyr fod yn 16+ oed.
Cyn y gellir ardystio dysgwyr ar gyfer y cymhwyster hwn, rhaid iddynt gwblhau:
- Cwrs hyfforddi cynnal bywyd sylfaenol sy'n cynnwys: CPR, safle adfer, defnyddio diffibriliwr a sut i reoli gwaedu.
- E-ddysgu Ymwybyddiaeth o Weithredu Gwrthderfysgaeth (ACT) (Tystysgrif) neu gwrs Hyfforddiant Strategol Gweithredu Gwrthderfysgaeth (ACT) (Tystysgrif Estynedig)

Rhagolygon Gyrfa

Mae cwblhau'r cymwysterau hyn yn rhoi mynediad i swyddi stiwardio a diogelwch gwylwyr goruchwyliol gan gynnwys ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth, gwyliau a charnifalau.

Modiwlau'r cwrs

Er mwyn cyflawni Tystysgrif Lefel 3 YMCA mewn Goruchwylio Diogelwch Gwylwyr rhaid i ddysgwyr gwblhau naw uned orfodol. Nid oes gofyniad i ddysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn gwblhau unedau dewisol, ond gallant ddewis gwneud hynny os yw'r unedau'n berthnasol i'w rôl.

Mae modiwlau gorfodol y cwrs yn cynnwys:
– Paratoi stiwardiaid a lleoliadau ar gyfer digwyddiadau gwylwyr
– Rheoli a chynnal stiwardiaeth mewn ardaloedd dynodedig
– Rheoli gwybodaeth ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar gyfer digwyddiadau gwylwyr
– Datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda rhanddeiliaid
– Monitro a datrys problemau gwasanaethau cwsmeriaid

– Rheoli ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau sylweddol neu fawr a chynllunio ar gyfer gwydnwch
– Rheoli risgiau mewn mannau gorlawn
– Cynllun ar gyfer diogelwch pobl mewn digwyddiad gwylwyr
– Manage the safety and security of people at spectator events

Mae modiwlau dewisol y cwrs yn cynnwys:
– Helpu i reoli a datrys gwrthdaro*
– Delio â digwyddiadau mewn digwyddiadau gwylwyr*
– Rheoli adnoddau ar gyfer diogelwch a diogeledd mewn digwyddiadau gwylwyr

*Argymhellir yn gryf mai dim ond dysgwyr nad ydynt wedi cwblhau cymhwyster lefel 2 mewn diogelwch gwylwyr yn flaenorol sy'n dewis yr unedau hyn.

Asesiad

Portffolio o dystiolaeth
Arddangosiad ymarferol

DULL ASTUDIO

WP

LLEOLIAD

HYD Y CWRS

Blwyddyn